

PRIFYSGOL
Glyndŵr
Wrecsam

Wrexham
Glyndŵr
UNIVERSITY

**Cynllun
Cydraddoldeb
Strategol
Prifysgol
Glyndŵr
Wrecsam**

2016-2020

CYFLWYNIAD

Dyma ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (CCS). Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill a Mawrth 2020 ac mae'n nodi ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith, i feithrin diwylliant cynhwysol a chreu amgylchedd sy'n rhydd o wahaniaethu.

Mae'r Brifysgol, drwy ei pholisïau a'i gweithrediadau'n anelu at fod yn sefydliad cynhwysol, yn tynnu ar arfer da o fyd Addysg Uwch a sectorau ehangach, gan gefnogi ein nod o gyflwyno cwricwlwm sy'n gwbl gynhwysol sy'n caniatáu hygyrchedd i bawb.

Mae un o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar Brifysgol Glyndŵr Wrecsam ddatgan ei hamcanon cydraddoldeb mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith trosfwaol i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ein Prifysgol, er lles ein myfyrwyr, ein staff, ein rhanddeiliaid a'r gymuned leol. Daw'r cynllun â nifer o gynlluniau darparu at ei gilydd ac adeilidir arnynt ar gyfer llinynnau cydraddoldeb penodol. Ei nod yw datblygu dull mwy holistaidd i ymdrin â'r holl nodweddion gwarchoddedig sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Brifysgol yn denu staff, myfyrwyr ac ymgeiswyr amrywiol ac mae'n croesawu'r cyfle mae hyn yn ei roi i adeiladu cymuned o bobl sy'n gwerthfawrogi ei gilydd. Mae'r cyfraniadau amrywiol hyn yn caniatáu i ni gyflawni ein gweledigaeth:

I weithio mewn partneriaeth, i ysbrydoli ac addysgu ein myfyrwyr a sicrhau llwyddiant cymdeithasol ac economaidd

Mae'r cynllun yn gysylltiedig â Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol ac mae'n cefnogi ei hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywioldeb, yn arbennig:

- Cynhwysiant – creu cymuned sy'n croesawu myfyrwyr, staff ac ymwelwyr o bob cefndir. Fe'u rhown wrth galon yr hyn a wnawn a'u trin gydag urddas a pharch. Darparwn fynediad cyfartal bob amser.
- Creadigrwydd - gweithio mewn partneriaeth gyda phawb ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol, a thynnu ar eu creadigrwydd i greu cwricwlwm cynhwysol ac amgylchedd dysgu sy'n cefnogi pob angen
- Hyblygrwydd - gweithio'n agos gyda'n cymuned i gefnogi twf a gwella canlyniadau i fyfyrwyr mewn modd hyblyg ac ymatebol, yn ddibynnol ar anghenion unigolion
- Cyflogadwyedd – meithrin perthnasau cydfuddiannol gyda phrifysgolion partner a cholegau addysg bellach er mwyn diwallu anghenion rhanbarthol. Bydd hyn yn cefnogi ein twf yn y dyfodol; yn arbennig mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywioldeb
- Gwelliant parhaus – datblygu ein diwylliant yn y Brifysgol, rhannu arfer da er mwyn gwella ein prosesau a'n gwaith i fabwysiadu cynhwysoldeb a datblygu amrywiaeth ein cymuned Prifysgol
- Yn canolbwyntio ar fusnes - gweithio mewn dull proffesiynol a hygyrch, anelu at ddod yn sefydliad cynhwysol, gwirioneddol, cydnabod y manteision busnes a'r gwerth sy'n deillio o boblogaeth brifysgol amrywiol.
- Rhagoriaeth - anelu at ragoriaeth ym mhob dim a wnawn, yn arbennig anelu at sicrhau y rhown gyfleoedd i bawb

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i bobl fanteisio ar addysg uwch, waeth beth fo'u nodweddion personol, oedran, anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu

rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred) a'u statws o fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Er bod gan Fwrdd y Llywodraethwyr gyfrifoldeb ffurfiol i sicrhau y bodlonir gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb, mae'r cynllun wedi'i anelu at yr holl staff a myfyrwyr, am ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau yr hyrwyddir cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y Brifysgol. Amlygir gwahaniaethu a gweithredir gwasanaethau hyblyg, arferion a gweithdrefnau sy'n rhoi sylw priodol i holl anghenion myfyrwyr, staff ac ymwelwyr.

PWY YDYM

Y Cefndir

Sefydlwyd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn 2008. Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru ydoedd gynt. Gall y Brifysgol olrhain ei gwreiddiau yn ôl i 1887.

Yn ogystal â'n campws yn Wrecsam, bellach mae gennym gampysau yn Llanelwain, Llandudno a Llundain.

Mae tua 6,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol, gyda 63% yn astudio yn llawn amser a 37% yn rhan amser.

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a ddarparwn ar gyfer ymgeiswyr o gefndiroedd anhraddodiadol, i gael mynediad at addysg uwch. Rydym yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r DU am gynorthwyo myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is i ddilyn cwrs prifysgol, diolch i raglen Ehangu Mynediad cynhwysfawr yn y gymuned leol.

Proffil Myfyrwyr:

Mae gan y Brifysgol tua 6,000 o fyfyrwyr, gyda chyfanswm y myfyrwyr llawn amser wedi gostwng 2% o 2014/15. Mae gan y Brifysgol ragor na 300 o fyfyrwyr rhyngwladol gyda'r mwyafrif ohonynt wedi eu lleoli ar ein campws yn Llundain.

Ceir darlun o broffil y myfyrwyr isod:

Mae 52% o fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn fenywod a 48% yn wrywod.

Proffil Staff:

Mae gan y Brifysgol ragor na 500 o staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol. Ceir darlun o broffil y staff isod:

Mae 56% o staff Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn fenywod a 44% yn wrywod.

Nodwyd y dadansoddiad isod o staff Prifysgol Glyndŵr Wrecsam mewn swyddi llawn/rhan amser a'r rhyw:

Gwrywod mewn swyddi llawn amser	38%	Gwrywod mewn swydd rhan amser	5%
Benywod mewn swyddi llawn amser	47%	Benywod mewn swyddi rhan amser	10%

Proffil Academaidd:

Mae gan y Brifysgol amrywiaeth eang o raglenni academaidd a ddarperir mewn 4 ysgol:

- Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd

- Ysgol Gwyddoniaeth Gymhwysol, Cyfrifiadura a Pheirianeg
- Ysgol y Celfyddydau Creadigol
- Ysgol Fusnes Gogledd Cymru

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn darparu cannoedd o gyrsiau ar wahanol lefelau ac yn cynnig amryw o ddewisiadau astudio. Ymfalchiwn yn ein cyfleusterau gwych, ein dewisiadau astudio hyblyg, ein cymuned gefnogol, ein cyrsiau gyrfa-ganolog a'n myfyrwyr.

DEDDFWRIAETH

Mae'r Brifysgol yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb a ddaeth i rym yn Hydref 2010. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyflawni dyletswyddau cyffredinol a chyhoeddus. Unwyd cyfreithiau gwrth-wahaniaethu a disodlwyd rhai blaenorol, er mwyn creu un fframwaith cyfreithiol. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol; oedran, anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred) a statws priodasol neu bartneriaeth sifil (o ran materion cyflogaeth). Nod y Ddeddf yw cyflwyno un darn o ddeddfwriaeth y gellid ei deall a'i defnyddio'n hawdd.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (adran 14) yn cyflwyno'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol ac mae'n sicrhau y bydd y Brifysgol yn rhoi sylw priodol i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Sicrhau a hyrwyddo gwell cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol; a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r un nodwedd

Nid yw'r Ddeddf ei hun yn disgrifio pa ddull y dylai sefydliad cyhoeddus ei fabwysiadu i sicrhau rhoi sylw dyledus, ond dywed y dylai hyrwyddo cydraddoldeb gynnwys y canlynol:

- Dileu neu leihau anfanteision a ddaw i ran pobl oherwydd eu nodwedd warchoddedig;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae eu cyfraniad yn anghymesur o isel.

Cyfrifoldebau Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus (Cymru)

Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus (Dyletswyddau Penodol) i rym yn Ebrill 2011. Nod ei rheoliadau yw creu dyletswyddau penodol sy'n helpu sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ac fe gânt eu llywio gan bedair egwyddor; defnyddio tystiolaeth, ymgynghori a chynnwys, tryloywder ac arweinyddiaeth.

Nod y ddyletswydd benodol yw sicrhau bod sefydliadau cyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a meithrin perthnasau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae dyletswyddau Cymru'n cynnwys;

- Pennu a chyhoeddi amcanion cyfrifoldeb ar gyfer pob nodwedd warchoddedig;
- Cyhoeddi'r camau a gymerwyd neu y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb a'r amserlen;

- Cynnwys ac ymgynghori â phobl sy'n rhannu neu sy'n cynrychioli'r rheini a chanddynt un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol bosibl;
- Monitro data cyflogaeth pob nodwedd warchoddedig;
- Asesu a monitro effaith cydraddoldeb polisiau, prosesau a gweithdrefnau;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol;
- Lle canfuwyd gwahaniaethau cyflog rhwng rhywiau, i gyhoeddi amcan i fynd i'r afael â'r rheswm dros y gwahaniaeth, ac os oes angen, cyhoeddi cynllun gweithredu ar fynd i'r afael â gwahaniaethau tâl.

AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Rydym yn anelu at gyflawni strategaeth, cyflwyno cam gweithredu a chreu polisiau sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol pobl ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol. Nod ac amcanion y strategaeth hon yw integreiddio egwyddorion ymdriniaeth gyfartal a hybu amrywiaeth o dan dair prif thema:

➤ Profiad ein Myfyrwyr

- Galluogi mynediad teg a chyfartal i bobl o bob cefndir a grŵp i addysg uwch ac i ddysgu.
- Mynd i'r afael â than-gynrychiolaeth grwpiau gwarchoddedig.
- Mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywioldeb a chreu amgylchedd cefnogol i'n myfyrwyr

➤ Profiad ein Staff

- Creu amgylchedd lle gall pawb gyfrannu a theimlo y cânt eu gwerthfawrogi.
- I gael gweithlu amrywiol, llawn cymhelliant, lle caiff staff eu trin gydag urddas a pharch a chanddynt ymreolaeth briodol
- I hyrwyddo diwylliant cynhwysol lle gwerthfawrogir amrywiaeth.

➤ Ein Profiad Cymunedol

- I sicrhau y gall pobl o bob cefndir a grŵp gael yr un mynediad at addysg uwch; datblygu prosiectau ar ehangu cyfranogiad, ennyn diddordeb myfyrwyr a datblygu'r gweithlu.
- Deall sut mae ein cymuned yn cyrchu'n gwasanaethau; mynd i'r afael â rhwystrau ac anghydraddoldebau a ganfuwyd.
- Ymwneud â grwpiau gwarchoddedig sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd.

HYRWYDDO'R DDYLETSWYDD CYDRADDOLDEB CYFFREDINOL

Gall staff, myfyrwyr a'r cyhoedd gyrchu'r dudalen we ar Gydraddoldeb ac Amrywioldeb a dyma fydd y prif ddull o rannu gwybodaeth amrywiol. Bydd yn cynnwys:

- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gydag amcanion a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb cefnogol;
- Adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb;
- Adroddiad ystadegol blynyddol ar wybodaeth am gyflogaeth a data myfyrwyr;
- Canlyniadau unrhyw asesiadau effaith a ymgwymerwyd â hwy;
- Polisiau'n adlewyrchu gwaith y Brifysgol ar wreiddio cydraddoldeb ac amrywioldeb ledled y sefydliad.

Bydd gwybodaeth ar gael mewn sawl fformat ar gais.

Rydym yn cydnabod y daw cyfoeth o fanteision yn sgil cael gweithlu a thrysori poblogaeth myfyrwyr amrywiol; bydd cynrychiolaeth amrywiol yn cryfhau ein gallu i hyrwyddo gwell cyd-ddealltwriaeth ac i fanteisio i'r eithaf ar dalentau a phrofiadau y gall pobl ddod i'n Prifysgol.

Mae gennym gyfres o bolisiâu a gweithdrefnau sy'n cefnogi cynhwysiant. Ein nod yw annog ein staff i gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod gennym gwricwlwm teg a chynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu a bwlio. Hysbysir staff am eu cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn ystod eu rhaglen gyflwyno a sesiynau hyfforddi diweddarau gwybodaeth. Rhoddir sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywioldeb yn yr Adolygiad Datblygiad a Pherfformiad blynyddol.

YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI

Mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn nodi pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu gyda phobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig i sicrhau y nodir ac yr ystyrir gofynion yr holl randdeiliaid.

Ymgynghorwyd â'r canlynol ar ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn a'r Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb cyfatebol:

- Yr Uwch Dîm Arwain
- Aelodau staff Gwasanaethau Academaidd a Phroffesiynol
- Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
- Undebau Llafur
- Staff a chanddynt swyddi lle maent yn wynebu myfyrwyr
- Cynrychiolwyr o'r Undeb Myfyrwyr
- Aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru

Bydd y Brifysgol yn parhau i geisio barn staff, myfyrwyr a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu ei hamcanion cydraddoldeb ymhellach a rhoi sylfaen i'r cynllun gweithredu.

MONITRO CYNNYDD

Ystyria'r Brifysgol y cynllun hwn fel dogfen sy'n esblygu ac o'r herwydd, caiff ei hadolygu'n flynyddol er mwyn ystyried datblygiadau arwyddocaol fel y maent yn digwydd.

Fel rhan o'n dyletswydd, mae gofyn i ni gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd a wneir. Mae'n arbennig o berthnasol bod ein strategaeth yn parhau'n ddogfen weithiol er mwyn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gyda'i nod o sicrhau "Cymru fwy cyfartal".

Mae Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywioldeb y Brifysgol yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol sy'n cadeirio aelodau'r grŵp ddaw o blith staff academaidd pob Ysgol, staff gwasanaethau proffesiynol sy'n cynrychioli pob maes gweithredol, cynrychiolydd myfyrwyr ac undeb lafur a Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth y grŵp yn adlewyrchu cymuned prifysgol Glyndŵr, mae'n cynnwys 9 benyw a 10 gwryw ac unigolion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fechan sy'n ymwneud â hyn a chyfraith gwarchod data, nid yw'n bosibl datgelu'r wybodaeth hon.

Diben y grŵp yw bod yn sylfaen i bolisiâu, gweithdrefnau, cynlluniau, a phrosesau'r Brifysgol a chefnogi'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywioldeb ar gyfer staff a myfyrwyr. Bydd y grŵp yn adolygu'r amcanion cydraddoldeb yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn cefnogi'r ddogfen hon. Mae'n ddogfen weithiol a chynhwysir camau gweithredu diwygiedig ac fe'i hadolygir fel bo'r gofyn.

Mae Aseidiadau o Effaith Cydraddoldeb wedi'u cynnwys yn natblygiad y polisi ac mewn prosesau penderfynu. Bydd hyn yn ein galluogi i weld effaith ein prosesau ar grwpiau gwahanol ac i roi camau gweithredu ar waith i sicrhau gwelliannau.

Darperir adroddiad blynyddol yn manylu ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion cydraddoldeb i ategu cylch adrodd y Brifysgol ac fe'u cyflwynir i Fwrdd y Llywodraethwyr cyn y cânt eu cyhoeddi.

Adolygir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ffurfiol bob pedair blynedd.

CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i nodi'r camau a gymerir i gyflawni'r amcanion. Mae'r cynllun yn nodi'r rhesymau pam fod y camau gweithredu'n angenrheidiol a'r meysydd sy'n gyfrifol am sicrhau y cwblheir y camau gweithredu hynny'n llwyddiannus.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gael ar ein gwefan a gellir gofyn amdano mewn fformatau gwahanol os bydd angen.

MANYLION CYSWLLT

Am fwy o wybodaeth am Gynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Glyndŵr Wreccsam, y cyfeiriad cyswllt yw:

Partner Busnes Datblygiad ac Amrywioldeb, Prifysgol Glyndŵr Wreccsam, Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam, LL11 2AW.

Ffôn: 01978 293307

E-bost: Alison.Bloomfield@glyndwr.ac.uk